

Tud 1.

Cyfarfod rhithiol Cyngor Cymuned Llanbedr a gyfarfu nos iau 12.5.22

Cyfarfod pur wahanol oedd hwn, wedi etholiadau lleol. Fel y dywedwyd yn y cofnodion mis Ebrill nid oedd etholiad yn Llanbedr. Pryn bynnag cafwyd llenwi 2 sedd wag a hefyd ychwanegwyd at rhestr Cyngorwyr Sir hefyd.

Croesawodd y Clerc Jane Taylor Williams I'r cyfarfod, a hefyd Loise Helen Vassie.

Croesawyd Gwynfor Owen ac Annwen Hughes fel ein cynrychiolwyr Sirol. Cael 2 am bris un gan bod Llanbedr bellach yn rhan o Ward Harlech.

Esboniwyd bod y cyngor yn arfer cyfarfod yn rhithiol ar nos iau cyntaf ymhob mis. Eithriad yw'r cyfarfod arbennig yma.

Bu I'r Cyngorwyr arwyddo ffurflenni datgan buddiant a hefyd ffurflen derbyn swydd. (ac eithrio Helen Johns a oedd yn absennol.

Yn ogystal bu I Eirwyn Thomas, Robin Ward a hefyd Kevin Titley arwyddo eu ffurflenni perthnasol. Roedd KT yn cael eu gyfethol ar y noson oherwydd iddo mewn egwyddor anfon ei bapurau enwebiad I Gyngor Gwynedd yn barod at yr etholiad. Rhyw ddrysych wedi bod o ochr Gwynedd gyda derbyn yr e bost hynny.

Erys 3 sedd wag felly yn agored ar gyfer cyfethol aelodau newydd I lenwi'r seddi hynny. Y broses yw rhoi rhybudd o hyn ar y bwrdd hysbysebu yn y Pentref. Rhybudd yno ers 6.5.22 ac I fod yna hyd y 19.5.22 (cyfnod o 14 diwrnod).

Os mae dim ond 3 enw ddaw I law, yna bydd y 3 hynny yn cael eu cyfethol ar y Cyngor. Os y daw mwy o enwau yna bydd yn rhaid I'r Cyngor presennol lenwi papur ballot, gyda 3 pleidlais yr un.

Gan bod y Cadeirydd Gruffydd Price wedi ymddeol o'I swydd, ar ddechrau'r cyfarfod fel hyn 'roedd yn rhaid ethol Cadeirydd Newydd. Etholwyd William Eirwyn Thomas I'r swydd gan ei fod eisioes yn Is Gadeirydd.

Aethpwyd ymlaen a materion y Cyngor.

Buddiant – dim I'w ddatgan

Presennol

William Eirwyn Thomas, Kevin Titley, Robin Ward, Jayne Taylor Williams, Louise Helen Vassie

Cyngorwyr Sir – Annwen Hughes, a Gwynfor Owen

Absennoldeb

Helen Johns.

### **Cyfrifon**

Derbynniwyd y ffurflen flynyddol a'u cymeradwyuo.

**Nifer o sieciau angen eu harwyddo.** Bydd pawb yn derbyn y spreadsheet cyfredol y mis nesaf.

Materion dan Sylw

Ceisiadau Cynllunio

Tud 2.

2 gais cynllunio wedi dod I law. Sef

1. Cais ol weithredol - I gadw sied bren sydd wedi ei leoli o flaen yr edrychiad blaen Ty'r Graig, Llanbedr.

Rhif cais – NP/5/62/422A

Bu cryn drafod ar y cais yma. Y teimlad yw bod hwn yn adeilad o gryn faint, yn anarferol ac yn weladwy oddi ar y llwybr arfordir.

2. Cais Rhif NP5/62/63H

Cais amlinellol y troy ma ar safle cenelau cwn ger Capel Salem. Newid y cais o safle cadw anifeiliaid marw I le ymwelwyr.

Cais amlinellol I ddymchwel dau adeilad allanol a gosod 10 pod glampio, a creu llecynnau called I'w defnyddio fel llefydd parcio, a defnyddio'r adeilad sydd ar ol fel bloc gwasanaethau.

Fel y dywedwyd o'r blaen rydym fel Cyngor wedi cefnogi llefydd o'r fath yn yr ardal, ac felly yn methu gwahaniaethu. Y Cyngor ddim yn gweld unrhyw broblem gyda hwn.

Felly datgan – dim gwrthwynebiad.

Unrhyw ddatblygiadau parthed y ffordd arfaethedig?

Dim ond datgan bod llythur diwigiedig Gruffydd Price y cyn gadeirydd wedi ei anfon at y Llywodraeth, Cynghorwyr wedi ei dderbyn hefyd.

Datgan hefyd bod y Clerc wedi derbyn e bost parthed cynnig help gan berson parthed dulliau cynllunio gyda'r ffordd arfaethedig. Anfon hwn ymlaen at AH a GO a Pobl drwy Jane.

RW yn datgan bod rhaid I'r Cyngor Cymuned arwain ar hyn a bod yn rhaid cael cyfarfod cyhoeddus gyda Cyngor Gwynedd

Nododd WETH hefyd bod yn rhaid I'r Cyngor Cymuned fod yn fwyn gweithredol.

AH yn nodi bod llythur GP wedi derbyn ymateb oddi wrth Dafydd Wyn Cyngor Gwynedd.

Gwynfor Owen yn nodi bod bron I 7 wythnos wedi mynd heibio , sef cyfnod cyn etholiad ble nad oedd modd gweithredu, hyn oedd y rheolau, dim bai ar neb. Yn awr fydd pawb yn gorfod ail ddechrau are u Gwaith.

Nododd JTW y gellir cael cyfarfod gyda grwp POBL. Nododd hefyd bod 6 aelod yn y grwp. Hefyd mae platform yw'r grwp yma I geisio am wybodaeth parthed y ffordd arfaethedig Disgwyl cael leaflet allan yn fuan.

RW – “Pressure Group” yw o , nid pobl sydd wedi cael eu hethol ar y Cyngor. Er eu bod wedi gneud gwaith da.

Byddai JTW yn gallu adrodd yn fisol ar weithrediadau y grwp.

Rhannu gwybodaeth er lles y Pentref yw nod pawb.

**Tudalen We Newydd**

Tud 3.

Mae'r dudalen we yn cael ei datblygu ac yn fyw l'w gweld. Bod angen code a r ei gyfer. Mae'n bosib y bydd DW yn y cyfarfod nesaf, er mwyn rhoi diweddariad I bawb.

Adroddiad gan Annwen Hughes – Materion Gwynedd

1. Llinellau melyn dim l'w adrodd
2. Coed yn yr afon – Cyfoeth Naturiol Cymru – dal dim ymateb I hyn.
3. Gwerthiant rhif 3 Bryn Deiliog, nid ydynt am dynnu'r ty oddi ar y farchnad. Bod ganddi gyfarfod gyda Cwmni Adra yn fuan.

Nododd y Clerc iddi gael llythur oddi wrth adran eiddo Cyngor Gwynedd yn awyddus I brynu unrhyw dai gweigion, hyn yn ironig ac ADRA yn gwerthu ty Cymdeithasol yn y Pentref.

Nododd AH nad yw Adra yn rhan o Gyngor Gwynedd. Maent wedi disodli cwmni CCG

Nododd KT a oes yna bolisiau mewn lle ar gyfer pwy sydd yn cael tai fel hyn? Pobl lleol ddim eisiau nhw, ond falle y byddai teuluoedd ifanc yn lleol eu hangen.

Nododd AH nad ydynt yn derbyn unrhyw wybodaeth pwy sydd ar y rhestr. System pwyntiau, ac yn gyfrinachol. Dim syniad pwy sydd ar y rhestr aros.

KT – pryder gyda biniau cae chwarae – angen ail gylchu ar gyfer dydd hwyl. Unrhyw syniadau.

Pasiwyd I gael cyfarfod yn y Neuadd ar yr 2.6.22 (er bod hi'n wyliau pryd hynny).

Diolchwyd I bawb am eu cyfraniadau